

562
R. Llwyn


CAN NEWYDD,

YN RHODDI HANES

LLOFRUDDIAETH

ARSWYDUS,

A gyflawnodd William Williams ar ei Fodryb Anne Williams, trwy ei saethu, yr hon oedd yn byw mewn Ffarm fechan o'r enw Gwynefaur, yn mhlwyf Talgarth, Sir Frycheiniog, ar y 19eg o fis Hydref diweddas. Profwyd ef yn euog, a chafodd ei ddihenyddio ar y 23ain o Ebrill, 1861, yn Aberhonddu.



Gwrandewch drigolion trwy 'r holl wlad,
Llawn o gwynion yw y ganiad,
Sef hanes am lofruddiaeth lidiog
Gadd ei chyflawni 'n Swydd Frycheiniog.

'R oedd yno fachgen ieuanc gwiwlan,
Tu a phedair blwydd-ar-bymtheg oedran ;
William Williams oedd ei enw
'R hwn a ddaeth i ddiwedd chwerw.

11854

X2052 11207

Nol claddu dad aeth i wasanaeth,
 At ewythr iddo i'r gym'dogaeth:
 Yr oedd pob rhai yn hoffi'r glanddyn,
 Nâs iddo goledd ffyrdd y gelyn.

Mi draetha'r hanes yn geffelyb
 Fel aeth i ymwel'd a'i chwaer a'i fodryb,
 Ei fodryb oedd yn berchen eiddo,
 Yn byw rhyw belllder oddiyno.

Y noswaith hono yno cysgodd,
 Ar dydd canlynol 'fe a'i saethodd;
 'Nol hyn efe a waeddodd allan,
 "Mae mqdryb wedi saethu ei hunan!"

Ei chwaer a redai i'r ty yn union,
 A chafodd olwg drist echryslon,
 'Gwel'd ei mhodyb yno 'n gorwedd,
 Ar y llawr yn ddigon marwedd.

Yn ei chefn'r oedd wedi ei saethu;
 (O'r fath olwg wael oedd arni,
 Yn ei hanwybodaeth hollol,
 Cadd wynebi'r byd tragwyddol.

Fe geisiai gyfiawnhau ei hunan,
 Mae nid o'i fodd'r ai yr ergyd allan:
 Ond barn y cyhoedd ydoedd iddo
 Et ei lladd er mwyn ei heiddo.

'Mhen ychydig cyfaddefodd
 Mae 'fe ei hun o'i fodd a'i saethodd:
 Ac yna i garchar cadd ei gyrchi,
 Hyd ddydd ei brawf yn Aberhonddu.

Pan ddaeth y *Session* cadd ei farnu
 'Nawr gerbron y *Judge* ar *Jury* ;
 'Nol pob tystiolaeth caed e 'n euog
 O'r lofruddiaeth anrhygarog.

Ar barnwr roddodd arno'r ddedfryd,
 Mae dyn oedd ef i gollu fywyd ;
 Pryd hyn fe ddrylliwyd ei deimladau,
 Nes oedd pawb yn wlyo dagrau.

Fe'i cymmerwyd gyda galar,
 Yn ei ol drachefn i'r carchar,
 Gyda pharch yr oedd r *Offeiriad*
 Arno yn gweinu wrth ei alwad.

Bu gweinidog y *Bedyddwr*
 Yno yn rhoi cynghorion cywyr,
 Am iddo ddwys-weddio ar Iesu,
 Gan fod ei amser bron terfynu.

Bu fam a'i chwaer a'i ewythr yno,
 'N ymweld ag ef gan ddirfawr wlyo ;
 Ei fam ddywedai gyda galar—
 Pa fodd gwnaest hyn fy machgen hawddgar ?

Pa ryw galon all ddychmygu,
 Teimladau'r fam yn y carchardy,
 Pan 'r oedd yn talu 'r ola ymweliad,
 A'i hanwyl fab cyn ei ymadawiad.

Y trydedd dydd ar hugain ydoedd
 O fis Ebrill, pan ddaeth miloedd,
 Tua 'r dref o bob cyfeiriad,
 I gael gwel'd ei ddihenyddiad.

4
grogbren f'ei cymmerwyd;
tyn am ei wddf a roddwyd;
hedair blwydd ar-bymtheg
ei oed ar hyn o adeg.

r fath waedd oedd gan y bobol,
Pan hurddiwyd efi'r byd trag'wyddol;
Rhwyng dae'r a nef y cafodd hongian
Am ei hynod ddrwg ei hunan.

'R oedd yr olwg arno 'n ddigon,
I doddu y caleta ei galon,
O na fyddai hyn yn rhybydd,
I bob oedran trwy y gwledydd.

Waith saethu fodryb 'r oedd mewn gofid,
Gan ddyweyd ar unwaith es ai bywyd,
Ond mi gefais amser yma,
Er cael ceiso nefol noddfa.

Bydded i'w berthinasau hawddgar,
A'i gyfeillion sydd mewn galar,
Droi mewn pryd at Iesu grasol,
Cyn gwynebu'r byd tragwyddol.

Gweddiwn ninan 'n ddyfal beunydd,
Am nerth i rodio'n fyrdd yr Arglwydd:
Na chlywom byth am erchyll ddiben,
Unrhyw ddyn o dan y grogbren.

D. JONES, Llanybyther.

*LLANBEDR: Argraffwyd gan JENKIN DAVIES;
(Lle y gwneir pob math o Argraffwaith am bris isel.)*